SGILIAU YSGRIFENNU

Ysgrifennwch yn EGLUR

http://www.crystalinks.com/lenticular.html **accessed 12.11.16**

1) Ydw i’n deall yn <u>eglur</u> yr hyn yr wyf yn ei drafod?

2) Ydw i wedi ei fynegi’n <u>eglur</u>?

Ysgrifennwch yn *eglur*

Rhan 2

YSGRIFENNU … BWRW IDDI!

Deuparth gwaith ei ddechrau

Ysgrifennu DRWY

http://www.treehugger.com/infrastructure/worlds-longest-tunnel-opens-switzerland.html
accessed 12.11.16


meddwl/ysgrifennu
dehongli/ysgrifennu
ymchwilio/
ysgrifennu

Cynllunio

Beth yw eich nod?	Aseiniad *ysgrifenedig* (!)X o eiriau
Beth ydych chi'n meddwl bydd eich 'neges'?	Bydd eich 'neges' yn ddadansoddiad CLIR o broblem x Bydd yn dangos ôl: i) ymchwil beirniadol ii) tystiolaeth iii) dadansoddi
Pwy yw eich cynulleidfa	Arbenigwyr eraill yn y maes sydd a chanddynt ddiddordeb i ddysgu mwy ....

CELFYDDYD cymryd nodiadau

CYMRYD NODIADAU fel rhan o'r broses ysgrifennu

Dydych chi ddim yn 'gwglo' eich traethawd.
Dydych chi ddim yn 'cytaphesto' eich traethawd.

Rydych chi'n **ysgrifennu** eich traethawd.

Nodiadau ‘Post it’ = Y CWESTWN!!!

Sut mae’r erthygl yma’n fy helpu i ATEB Y CWESTIWN?

Wrth ddod at aseiniad academaidd …

Mae angen:

- **MEDDWL AGORED**
- **Adnabod beth sy'n berthnasol i'w ddarllen a beth sy'n amherthnasol – a bydd rhaid darllen peth deunydd amherthnasol er mwyn gwybod beth sy'n berthnasol.**

Archwiliwch y deunydd darllen yn ofalus.

Nodiadau Defnyddiol	
GWYBODAETH AM Y DARN	Awdur, Teitl, Dyddiad a lleoliad y cyhoeddiad (ble daethoch o hyd i'r wybodaeth: yn y llyfrgell / beth oedd y cyfeirnod ar y llyfr / ar y ww: pryd / beth oedd y wefan a.y.b.
Pam ydw i'n darllen hwn?	
Ydw i wedi cael budd o ddarllen hwn?	
Beth yw prif bwyntiau'r erthygl?	

https://www.rlf.org.uk/resources/introduction-dissertation/ **accessed 12.11.16**



RHAN 4

BETH MAE ‘ACADEMAIDD’ YN EI OLYGU?

COFIWCH:



Waeth beth fydd geiriad eich 'testun', yn y bon bydd angen i chi DDADANSODDI.

Er mwyn DADANSODDI – mae angen sylwi'n fanwl ar y deunydd o'ch blaen.

MAE ANGEN CYNNWYS YR HYN RYDYCH CHI WEDI SYLWI ARNO YN EICH YSGRIFENNU

Rhowch *broses y sylwi* mewn geiriau.

Rhowch FYNEGIANT i'r PROSESAU MEDDWL A GODODD o'r SYLWI.

Peidiwch â disgwyl i'r darllenydd allu dyfalu sut y daethoch chi at eich casgliad.

UNWAITH ETO … BYDDWCH YN EGLUR!

Edrychwch ar eich aseiniad chi:

- **Gwerthuswch** yn feirniadol eich gwers yng ngoleuni eich profiad addysgu cyntaf.
- **Trafodwch** sut y gallech ymdrin â'r ymarfer hwn mewn ffordd wahanol a sut y gallai hyn wella eich arfer. Sut y gallai'r newidiadau hyn effeithio ar y broses addysgu a dysgu?
- **Gwerthuswch** ddatblygiad eich meddwl chi eich hun fel athro sy'n defnyddio safonau SAC.

PWY YW EICH CYNULLEIDFA?

Ffrindiau sy'n deall eich 'in-jokes'??

Teulu sy'n eich adnabod yn dda?

Cyd-fyfyrwyr sydd wedi bod yn rhan o sgyrsiau blaenorol ac felly sy'n deall eich barn am bethau a pham eich bod yn meddwl felly?

NA!

- Mae angen cyfiawnhau ac esbonio pob datganiad
- Dim byd rhy bersonol!
- Dadansoddi - dangos SUT ydych chi wedi dod i'r casgliad

Cysylltwch bethau

- Roedd y profiad ysgol yn dda. Roedd y pennaeth wedi dangos y cysylltiad rhwng syniadau Donaldson a’r ysgol hon. Mae’r ysgol yn flaengar.

- Rhaid canmol y profiad ysgol hwn gan fod y pennaeth wedi dangos yn glir y cysylltiad rhwng syniadau Donaldson a’r ysgol flaengar hon.

Rhowch DREFN ar eich syniadau

- Peidiwch â neidio nôl a ’mlaen – anrhefn!!
- Gosodwch syniadau tebyg o fewn yr un grŵp / adran / paragraff
- Holwch: sut gall y pwyntiau yma lifo?
- Defnyddiwch ddolenni cyswllt
- Sicrhewch eich bod yn cloi ac yn crynhoi eich casgliadau

Ymadroddion cysylltiol

- Yn gyntaf, yn ail, yn drydydd
- Ar yr un llaw … ar y llaw arall
- Fodd bynnag
- Felly
- Oherwydd hyn
- Yn dilyn
- Serch hynny
- Ymhellach
- I gloi

RHAN 3

ARDDULL

Pwysigrwydd Cywirdeb

- Ysgrifennu cywir = ysgrifennu clir
- Ysgrifennu clir = cyfathrebu effeithiol
- Beth yw pwrpas unrhyw ddarn ysgrifenedig?
- CYFATHREBU

Ysgrifennu'n ffurfiol

- Osgoi ffurfiau emosiynol a goddrychol:
- (h.y. Dim 'in your face')
  - Mae'r syniadau hyn yn basic iawn

- Yn hytrach, byddwch yn fwy GWRTHRYCHOL a GOCHELGAR:
- (h.y. Cymerwch gam yn ôl)
  - Gellir awgrymu nad yw'r syniadau wedi'u datblygu'n llawn

Byddwch yn gryno.

- Yn dilyn y ffaith bod pob un beirniad theatr wedi mynd ati i ddadansoddi'r testun trwy fabwysiadu safbwyntiau gwahanol, ni fu modd dod i gytundeb ar y mater (28 gair)

- Gan i'r beirniaid theatr fabwysiadu safbwyntiau gwahanol ar y testun, ni chytunwyd ar y mater (15 gair)

Beth yw goddrychol a gwrthrychol?

- GODDRYCHOL =
- FI! FI! FI! FI! FI! FI! FI! FI!
- GWRTHRYCHOL =
- CYMRYD CAM YN ÔL

Sut gallwn ni fod yn wrthrychol?

- Sut gallwn ni fod yn gryno?

Berfau:

- Defnyddio berfau amhersonol
- Defnyddio berfau cryno

Mae nifer o syniadau newydd yn cael eu cyflwyno yn yr erthygl hon

Cyflwynir nifer o syniadau newydd yn yr erthygl hon

Berfenw	Amhersonol – nid yw pob berf yma, beth yw'r patrwm?
Agor	Agorir
Awgrymu	Awgrymir
Cael	Ceir
Clywed	Clywir
Cymharu	Cymherir
Dangos	Dangosir
Dod	Deuir
Dweud	Dywedir
Esbonio	Esbonnir
Gweld	Gwelir
Gwybod	Gwyddys
Honni	Honnir
Mynnu	Mynnir
Mynd	Eir

Defnyddio berfau amhersonol yn gywir:

Awgrymir yn yr erthygl hon fod yr arbrawf wedi gweithio

Dywedwyd bod nifer o ysgolion wedi gweld budd o’r cynllun newydd

Yn Anghywir:

Dywedwyd Donaldson bod angen dull newydd o weithio… X

Awgrymir Diamond bod angen dull newydd o weithio X

DIM person yn dilyn berf amhersonol yn syth.

Mae’r bachgen yn gweld car.

Gwêl y bachgen gar.

Mae’r ferch yn darllen llyfr.

Darllena’r ferch lyfr.

Mae’r awdur yn awgrymu tristwch.

Awgryma’r awdur dristwch.

Mae’r bardd yn dangos pwysigrwydd rhyfeddfod.

Dengys y bardd bwysigrwydd rhyfeddod.

Mae’r llywodraeth yn pwysleisio gwerth y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Pwysleisia’r llywodraeth werth y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Berfenw	3ydd unigol cryno – nid yw pob berf yma … beth yw’r patrwm?
Agor	Egyr
Awgrymu	Awgryma
Cael	Caiff
Clywed	Clyw
Cymharu	Cymhara
Dangos	Dengys
Dod	Daw
Dweud	Dywed
Esbonio	Esbonia
Gweld	Gwêl
Gwybod	Gŵyr
Honni	Honna
Mynnu	Mynna
Mynd	Â / Aiff

Y Llais Academaidd	
Clir a chryno	
Gwrthrychol a hyderus	Berf amhersonol Dywedir yn y bennod hon … NEU 3ydd person (cryno os yn bosib) Dywed y bennod hon ….
Sensitif a gofalus	Osgowch tabw, dataganiadau ysgubol, iaith sy'n creu stereoteip. Tueddwch at y gofalus
Defnyddiwch gywair addas	Osgowch ysgrifennu'n llac: sneb yn gweud: does neb a ddwed Defnyddio ystod eang o ferfau: gwylio/sylwi/craffu dweud/datgan/mynegi
Defnyddiwch iaith sy'n perthyn i'r maes	addysgeg, cwricwlwm, asesu,
See De Montfort guide:	http://www.library.dmu.ac.uk/Support/Heat/index.php?page=488accessed 12.11.16

Cyflwynwch dystiolaeth a chefnogwch eich barn

- Yn ôl X
- Dywed X
- Mynna X
- Mewn erthygl sy’n dwyn y teitl X
- Yn 1900 honnodd X
- Yn ei erthygl *al;skdf* yn *als;kdfj* awgrymodd X
- Ar y naill law …. Ar y llall
- Gellir dadlau bod …
- Tybia rhai fod …
- Y farn gyffredinol yw bod …
- Y farn ymhlith rhai yw …
- Cred ambell feirniad fod …
- Dichon fod ambell un yn …

Dyfynnu:

- ❖ Dylid osgoi defnyddio gormod o ddyfyniadau - nid eich geiriau na’ch syniadau chi yw’r rhain
- ❖ Dylid dewis dyfyniadau sy’n:
  - ➢ atgyfnerthu prif bwyntiau
  - ➢ gwneud gosodiad mewn ffordd drawiadol

Sut i osgoi dibynnu’n ormodol ar ddyfyniadau?

- Darllenwch yn eang iawn er mwyn sicrhau safbwyntiau sawl academydd gan fynd ati i’w crynhoi yn eich geiriau’ch hun

- Lluniwch nodiadau effeithiol yn eich geiriau eich hunain yn hytrach na chopïo geiriau eraill yn uniongrychol

Y rheswm pam fod cywirdeb yn cyfrif yw am ei fod yn gyfrwng EGLURDEB

Mae darn gwallus yn anodd iawn i'w ddeall.

Nid yw felly'n eglur.

Nid yw'n cyfathrebu!

Cyfathrebu – PRIF bwrpas UNRHYW ddarn ysgrifenedig!

RHAN 4

FFURF

Gwiriwch:

1) Y Llawlyfr Modwl
2) Llawlyfr Ansawdd y Brifysgol

Er mwyn cadarnhau materion sylfaenol fel:

i) uchafswm geiriau;
ii) maint ffont;
iii) dyddiadau cyflwyno;
iv) dull cyflwyno ayb

Peidiwch â chyflwyno eich Aseiniad

mewn ffont fel hyn

Cadwch at rywbeth ffurfiol

Neu byddwch yn cael eich cosbi

Times New Roman

Arial

Calibri

MAINT 12

Dyma enghraifft o waith sydd wedi'i ysgrifennu mewn gwagedd ddwbl ('double spacing') yn hytrach na gwagedd sengl ('single spacing'). Mae angen i'ch holl waith gael ei gyflwyno yn y dull hwn. Cliciwch ar 'fformat' yna 'paragraff' a newidiwch y ddogfen i 'double' yn y bwlch 'spacing'. Os ydy eich dyfyniad yn cwmpasu XXX o eiriau, yna rydych yn ei osod arwahân ac mewn gwagedd sengl, fel hyn:

Dyma nawr enghraifft o ddyfyniad sy'n fwy na XXX o eiriau ac felly mae wedi ei osod mewn gwagedd sengl yn hytrach na gwagedd dwbl er mwyn dangos mai geiriau rhywun arall yw hwn.

Dwi nawr allan o'r dyfyniad a nôl yng nghorff y traethawd ac felly dwi'n defnyddio gwagedd ddwbl unwaith eto.

Cyfeirnodi a Llyfryddiaeth

- Llên ladrad
- Dull cyfeirio Harvard

Llên ladrad

- Beth yw llên ladrad??

- Esgus mai chi piau syniadau rhywun arall.
- Defnyddio gwaith neu syniadau rhywun (er enghraifft o raglen ddogfen ar y teledu, neu gopïo neu ludo o’r rhyngrwyd heb gydnabod y ffynhonnell wreiddiol).
- Peidio â gosod dyfyniad mewn dyfynodau.
- Dyfynnu, aralleirio neu grynhoi gwaith eraill heb gyfeirnodi’r ffynhonnell wreiddiol.

- Newid geiriau ac ymadroddion ond yn copïo strwythur brawddegau ffynhonnell heb gydnabod yr awdur gwreiddiol.

- Dyfynnu ffynonellau nad ydych wedi eu defnyddio.

CYFEIRNODI

- Er mwyn osgoi llên-ladrad, rhaid CYFEIRNODI unrhyw ddarn o waith nad yw'n perthyn i chi yn wreiddiol
- Nid dim ond copïo gwaith rhywun arall ar bwrpas yw llên ladrad.
- Mae cyfeirnodi gwan iawn YN llên ladrad.
- 'Dydw i ddim yn gwybod sut mae cyfeirnodi' - ANNERBYNIOL
- Eich cyfrifoldeb chi yn y pen draw yw osgoi llên ladrad.

Cymorth!

- Sesiynau Sgiliau Academaidd y llyfrgell
- Poeni?
- Ewch yn syth - peidiwch ag aros tan i’r traethawd gael ei ddychwelyd!

Goblygiadau Llên-ladrad

- Mae prifysgolion yn ymateb yn llym: mae’n ffurf ar dwyllo
- Methu’r modwl
- Methu’r cwrs
- Mae’n amhosib twyllo’r marcwyr
- Eich darlithydd / marciwr mewnol / marciwr allanol / byrddau arholi
- Meddalwedd llên-ladrad

PCYDDS yn defnyddio:

Dull Harvard

Prif allwedd cyfeirnodi cywir yw CYSONDEB

YN Y TRAETHAWD

Cyfeirnodi yng nghorff y traethawd – y wybodaeth bwysicaf, cyfenw'r awdur, blwyddyn y cyhoeddwyd y gwaith, a rhif y dudalen os ydych yn dyfynnu neu'n cyfeirio'n uniongyrchol at osodiad.

AR DDIWEDD Y TRAETHAWD

- **Rhestr Gyfeirnodi**

  Rhestr lawn o unrhyw ddeunydd yr ydych wedi'i ddyfynnu yn y testun.

  Yn y darn hwn, gall y person sy'n darllen eich gwaith gael manylion ychwanegol ynghylch ble yn union y daethoch o hyd i'r wybodaeth.

- **Llyfryddiaeth**

  Rhestr lawn o'r holl ddeunydd yr ydych wedi'i ddarllen hyd yn oed os nad ydyw wedi'i ddyfynnu yn eich traethawd.

Rhaid cyfeirinodi UNRHYW BETH yr ydych yn ei ddefnyddio, megis:

- Llyfrau
- Penodau mewn llyfrau
- Gwefannau
- DVD
- Cyfweliad Radio
- E-bost
- E-gylchgrawn
- Cylchgronau academaidd: ‘peer-reviewed journals’
- Papurau Newydd

RHAID cyfeirnodi er mwyn osgoi LLÊN-LADRAD

Cyfeirnodi o fewn llif aseiniad / traethawd

- Pan fyddwch chi'n cyfeirio at waith awdur arall yn gyffredinol:

Os ydych yn enwi'r awdur, rhowch y cyfenw yn eich brawddeg a dyddiad y llyfr mewn cromfachau.

E.e.

Mae Edwards (2007) yn nodi bod dau lyn ym Maladeulyn ers talwm ond gydag amser sychodd un yn llwyr.

Os nad ydych yn enwi'r awdur yn eich brawddeg, ar ôl y cyfeiriad nodwch gyfenw'r awdur a'r dyddiad yn unig

E.e.

Y gred yw nad oes gan rygbi heddiw lawer o ddyfodol oni fydd buddsoddiad sylweddol yn cael ei wneud i hyfforddi chwaraewyr ifanc
(Jones, 2010; John, 2009)

Pan fyddwch chi’n dyfynnu’n benodol o waith awdur arall

Ar ôl y dyfyniad nodwch:

Gyfenw’r awdur, y dyddiad **a rhif y dudalen**.

Dyfyniadau byr (hyd at 30 o eiriau / llai na 2 linell) yn aros yng nghorff y testun, mewn dyfnodau:

Er enghraifft:

Yn ardal Castell Martin yn Ne Sir Benfro, mae'r milwyr yn dal i ymarfer, a'r gwersyll yno **'yn gartref i droi'r bechgyn yn beiriannau lladd'** (Tudor, 2008, 7).

Dyfyniadau Hir (mwy na 30 gair / 2 linell): Rhaid i chi fewn-osod y dyfyniad, a pheidiwch â defnyddio dyfynodau, e.e.:

Mae'n bwysig sylweddoli nad yw pob arbenigwr yn cytuno â hyn, fel

y dywed Hoskins:

Cafwyd cryn ddadlau yn ystod y cyfnod wedi'r ail ryfel byd ynghylch pwy oedd yn bennaf gyfrifol am achosi'r gyflafan yn y lle cyntaf, gyda rhai'n dadlau mai X oedd ar fai, ac eraill yn mynnu mai Y oedd ar fai. **(Hoskins, 1975, 4).**

AR DDIWEDD EICH TRAETHAWD…

Mae angen casgliad o’r holl gyfeirnodau a manylion llawn y cyhoeddiadau, e.e.:

Enw llawn yr awdur (e.e. John, J.)
Teitl llawn y bennod neu’r llyfr
Enw’r Golygydd
Teitl llawn y gyfrol y mae’r bennod yn ymddangos ynddi
Rhifyn, tymor a dyddiad Cyfnodolion
Man Cyhoeddi
Y Cyhoeddwyr
Tudalennau’r erthygl…

CYSONDEB

Llyfrau

Awdur – Cyfenw a llythyren gyntaf ei enw cyntaf wedyn **ATALNOD LLAWN.**

Dyddiad – Mewn Cromfachau

Teitl – Mewn ‘italics’ wedyn **COMA**

Man Cyhoeddi – Wedyn colon

Cyhoeddwr – WEDYN ATALNOD LLAWN!!

E.e

Jones, B. (1988) *Time and Motion,* Cambridge: Cambridge University Press.

Os oes mwy nag un awdur i'r llyfr, nodwch nhw yn ôl y drefn y'u gwelir ar y llyfr (neu yn ôl trefn yr wyddor). Eto, cadw at yr un drefn sy'n bwysig!

Johnston, R., Lewis, K., a Steven, L. (2009) *Ein Llyfr Ni,* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Caerdydd

Os oes mwy na thri awdur, yna defnyddiwch *et al.* (= ac eraill).

Davies, S. *et al.* (2010) *Llyfrau Cymru,* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Caerdydd

Os yw awdur wedi cyhoeddi mwy nag un llyfr mewn blwyddyn, yna nodwch bob un gydag a, b, c, a.y.b ar ôl y dyddiad

Davies, S. (2000a) *Pobl Caerdydd,* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Davies, S. (2000b) *Fy ail lyfr yn y flwyddyn 2000,* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Penodau mewn llyfrau a olygwyd

Yn y prif destun: Nodwch **awdur y bennod** **nid golygyddion y llyfr**

Yn y llyfryddiaeth:

- Awdur y bennod
- Dyddiad cyheoddi'r bennod
- Teitl y bennod mewn 'dyfynodau sengl'
- Y golygydd / golygyddion wedyn (gol.) neu (goln.)
- Dyddiad cyhoeddi'r llyfr os yw'n wahanol i ddyddiad cyhoeddi'r bennod mewn cromfachau
- Teitl y llyfr mewn italics
- Man Cyhoeddi
- Cyhoeddwr
- Tudalennau'r bennod

E.e.

Hopkins, E. (1982) 'Nodiadau ar y cemegyn sodiwn', yn H. Ellis (gol.) (2009) *Astudiaethau Gwyddonol,* Llandysul: Gwasg Gomer, tt. 123–134.

Cyfnodolion

Awdur,
Dyddiad
Teitl yr erthygl mewn ‘dyfnodau sengl’ wedyn COMA
Teitl y cyfnodolin – ITALICS
Rhif y gyfrol / rhan
Rhifau’r tudalennau (sef tudalen gyntaf ac olaf yr erthygl)

E.e.
Davies, B. (1991) ‘Beth yw Mesur Glas y Nen?’, *The Astronomy Journal,* 2, tt. 172–190.

GWEFANNAU

Cyfenw’r awdur (gyda choma yn dilyn) a phrif lythyren (gydag atalnod llawn ar ei ôl)

Y flwyddyn y cyhoeddwyd y safle / y tro diwethaf y’i diweddarwyd (mewn cromfachau crwn)

Teitl yr erthygl (mewn print italig - gydag atalnod llawn ar ei ôl)

Gwe-gyfeiriad llawn, yna semi colon;

(Darllenwyd: dyddiad) gydag atalnod llawn ar ei ôl

Beddington, M. (2009) *ERTHYGL.* http://www.stwff.ac.uk/dimbyd/ymarfer.htm; (Darllenwyd: 17/10/2017).

Os nad oes ‘awdur’ yna rhowch enw’r sefydliad / cwmni

Tric OLAF:

PWYLLO A GOLYGU!!!!

Bydd angen amynedd er mwyn cywiro.

Defnyddiwch

i) eiriadur

ii) raglen fel CySill

iii) lyfrau fel …



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David


Y TREIGLADUR
D. GERAINT LEWIS
Hyd oni welaf
Bu raid iddo fynd
Gofynnais iddo beth ddigwyddodd
ymweld â Chaerdydd
Y ddeuddegfed flwyddyn
tua thair milltir
wrth wrando arno
A Check-list of Welsh mutations
Argraffiad newydd
GOMER



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

AP TREIGLO

Carrier
1:04 PM
Ap Geiriaduron
Saesneg → Cymraeg
AP GEIRIADURON
PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY
Uned Technolegau Iaith /
Language Technologies Unit,
Canolfan Bedwyr
Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government
Coleg
Cymraeg
Cenedlaethol